

Her ein dydd

“Dewisais ffordd ffyddlondeb, a gosod dy farnau o’ m blaen.” (adn. 30)

Beth am ddarllen Salm 119:25–32 ac yna myfyrio

Rhaid aros eto hefo’r hyn a ddywedwyd ddoe, sef fod y rhai sydd yn ceisio gwybodaeth ymarferol i’w cynorthwyo i wneud y penderfyniadau iawn a chymhwyso’r egwyddorion iawn yn eu bywyd angen troi yn gyson at yr Ysgrythur. Y Beibl yw y llyfr sydd yn cynnwys geiriau awdurdodol Duw ei hun i’n gwneud yn arbenigwyr yn y maes o fyw bywyd.

Er hynny, rhaid inni wynebu’r ffaith fod yr oes yr ydym yn byw ynddi yn delio â’r Beibl mewn ffordd wamal iawn. Yn y byd heddiw, mae’r syniad fod yna un corff o wybodaeth fel y Beibl yn syniad sydd yn cael ei herio yn fynych. Mae pobl ifainc yn cael eu dysgu mewn colegau a phrifysgolion dros y byd i gyd nad oes y fath beth ag un corff o wybodaeth ddibynadwy, ac fe ddywedir wrthynt na all yr un llyfr gynnwys yr holl atebion sydd yn cael eu rhoi. Mae ôl-foderniaeth – syniad sydd yn honni fod pob awgrym o wirionedd yn rhywbeth cymharol i honiadau eraill, ac felly bod pob syniad a gwirionedd i’w trin gyda’r un parch – yn cael ei dderbyn gan lawer o Gristnogion ifainc. Dyna pam mae’n rhaid inni wneud popeth i sicrhau na fydd y byd yn cael ei wasgu i mewn i’w fowld. Yn fy marn i, ôl-foderniaeth yw yr her fwyaf i’r Efengyl ers y dadeni dysg a heriodd yn ei dro wirionedd yr Ysgrythur gan bwysleisio rheswm.

Fel myfyriwr ifanc, rwy’n cofio meddu ar gwestiynau lu am awdurdod y Beibl a pha mor ddibynnol oedd y Beibl, ond wedi i mi dderbyn trwy ffydd mai y Beibl oedd datguddiad Duw ac atal fy meddwl rhag ceisio gwneud y Beibl ffïtio i fy ffordd i o feddwl, fe agorwyd fy llygaid. Dywedodd un o’ m cynghorwyr ysbrydol: “Nid yw y Beibl yn wir oherwydd ei fod yn bodloni rheswm, ond mae’n bodloni rheswm oherwydd ei fod yn wir.” Derbyn hyn trwy ffydd, ac fe fyddi di hefyd yn darganfod y Beibl yn dod yn llyfr newydd yn dy olwg.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 119:33–56;

2 Pedr 1:19–21

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam fod y Beibl yn rhagori ar bob llyfr arall?
2. Pa resymau sydd gan bobl dros ei wrthod?

Gweddi

O Dad, cynorthwya fi yn y dyddiau anodd yma pan mae dy Air tragwyddol di yn cael ei wawdio a’i wamalu, i lynu yn dynn wrth ei egwyddorion a’i wirionedd. Dyfnha fy argyhoeddiad yn ei wirionedd. Diolch fod dy Air yn gwbl ddibynadwy. Yn enw Iesu. Amen.